CAIB

Ieuan Wyn, Huw Evans a Sioned Wyn sy'n rhedeg CAIB eleni. Hyd yn hyn mae dwy sesiwn wedi eu cynnal. Yn y sesiwn gyntaf fe wnaeth Huw a Ieu gynnal noson Tân Gwyllt a cherfio pwmpenni. Coginio gyda Sioned oedd yr ail sesiwn, ac fe wnaeth pawb fwynhau helpu coginio a bwyta'r bwyd. Fe fydd CAIB yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Naw Llith a Charol eleni a gynhelir ar 7 Rhagfyr, a byddant yn ymarfer yn yr wythnosau nesaf cyn y Gwasanaeth. Bydd CAIB yn gorffen ar ôl y Gwasanaeth am y Nadolig, ac yn ailddechrau ym mis Ionawr - digwyddiad i'w drefnu. ***Sioned Wyn***

# Trefn Gwasanaethau Mis Rhagfyr 2008

## Rhag 7:

**Bore:**

Ymweld â chartref
Tŷ Eirin, Tonyrefail.
*(cychwyn o Ysgol Gwaelod-y-Garth am 10.15. 11.00 yn Nhŷ Eirin).*
[Plant yr Ysgol Sul yn ymarfer yn y capel]

**Nos:** (5.00)

**Gwasanaeth Naw Llith a Charol**
*– mins peis i ddilyn a chasgliad at BanglaCymru, ein helusen eleni.*

## Rhag 14:

**Bore:** Ymarfer gwasanaeth y plant a'r ieuenctid

**Nos:** Y Parch Ddr. R Alun Evans
**Cymundeb** (5.00)
*a chanu carolau o amgylch y pentref i ddilyn.*

## Rhag 21:

**Bore:** (10.30)
**Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid.**
Casgliad at Gymdeithas y Beiblau

## Rhagfyr 25 (10.00)

**Gwasanaeth Bore Nadolig.**

Casgliad tuag at y Cyngor Unedig ar Alcohol a Chyffuriau

## Rhag 28 (10.30)

Gwasanaeth yng ngofal y gweinidog,
Y Parch Ddr. R Alun Evans

Cofiwch hefyd am wasanaeth
**Y Plygain**
Ionawr 11, **4.30** (y pnawn!)
[a Chaerffili am 6.30]

# Newyddion Bethlehem

Nadolig Llawen

Rhifyn Rhagfyr 2008



Garmon Llŷr Tilsley, mab Haf a Rhodri, Eryri, Fisherhill Way, Radur ar Hydref 12, 2008. Y Sul hwnnw hefyd derbyniwyd Haf, a Mary Slade, yr Eglwys Newydd, yn aelodau (gweler y rhifyn hwn).

Lansio gwefan capel Bethlehem:

## Gwe-lod y Garth!

**Peidiwch â rhuthro o'r capel ar ôl y Naw Llith a Charol.** Oherwydd yn union ar ôl gwasanaeth nos Sul 14 Rhagfyr fe fyddwn yn dathlu cyhoeddi newyddion da o fath digon gwahanol: lansio gwefan Bethlehem.

Ers rhyw fis, bu sawl un ohonom wrthi'n ddyfal yn llunio pytiau am wahanol agweddau ar fywyd teulu Bethlehem, gan gynnwys yr Ysgol Sul, Cwrdd y Merched, y gwahanol elusennau y byddwn yn cyfrannu atynt. Ac, wrth gwrs, y Clwb Cinio.

Bellach, mae'r holl gyfraniadau wedi eu plethu ynghyd yn un wefan sy'n rhoi gwybod i'r byd am weithgareddau'r eglwys.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys ambell ddarn mwy difrifol. Fel darlith Alun ar ddarlledu crefyddol yng Nghymru, a'i gyfieithiad diweddar o ddameg y dail.

Fel yr eglwys, un o hanfodion y wefan yw ei bod yn ddeinamig. Hawdd iawn fydd ychwanegu ac addasu deunyddiau, a bydd pob croeso i chithau gyfrannu iddi ac awgrymu gwelliannau.

# Suliau Ionawr – Mai 2009

**IONAWR**
**4** Parch Dafydd Owen
**11** Y Parch Ddr. R Alun Evans (**Cymun**) (10.30)
(4.30pm) Plygain Bethlehem
[a Phlygain Bethel Caerffili 6.30pm]
**18** Dr Neville Evans
**25** Y Parch Ddr. R Alun Evans

**CHWEFROR**
**1** Parch Dafydd Andrew Jones
**8** Y Parch Ddr. R Alun Evans (**Cymun**)
**15** Parch Jeff Williams
22 Y Parch Ddr R Alun Evans

**MAWRTH**
**1** Cwrdd Gweddi (0945-1015)
(10.30) Oedfa Gwyl Ddewi - plant
**8** Y Parch Ddr. R Alun Evans (**Cymun**)
**15** Gwasanaeth Ardal – Creigiau, Meisgyn & Llantrisant
**22** Y Parch Ddr R Alun Evans
**29** Parch Hywel Richards

**EBRILL**
**5** Parch Lona Roberts
**12** Y Parch Ddr. R Alun Evans (**Cymun**)
**19** Parch Gareth Reynolds
**26** Y Parch Ddr R Alun Evans
(Oedfa ar lafar ac ar gan rhwng y Pasg a'r Sulgwyn)

**MAI**
**3** Parch Cynwil Williams
**10** Y Parch Ddr. R Alun Evans
**(Cymundeb Mawr Mai**) a chyfle i dderbyn aelodau newydd o blith yr ieuenctid (+Cymorth Cristnogol - plant)
**17** Parch Milton Jenkins
(**Cwrdd Mawr** – bore'n unig)
**24** Parch Carwyn Arthur
**31** Parch Eirian Wyn

### *TAIR PRIODAS A BEDYDD!*

Bydd priodas Carys Lamb ym Methlehem ar Ionawr 3, 2009 a phriodas Elen Hughes (Ffwrnes Blwm) ar Fai 29, ac yna priodas Luned Eleri Clement, ar Fedi 19.

Hefyd i ddod, ar Ionawr 25, 2009, bedydd Cadi, Lon y Fro, Pentyrch. Rydyn ni eisoes wedi gweld ei mam, Lowri Griffiths, ymhlith y tair sydd wedi ymaelodi â ni'n ddiweddar. (lluniau'n y rhifyn hwn)

## Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r aelodau canlynol:

**Ann a Rhodri Gwynn-Jones**, Pentyrch, - ar farwolaeth tad Ann, Mr Dewi Davies, brodor o Lanpumsaint. Mae mam Ann, Margaret Davies, hefyd wedi bod dan driniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol ac treulio amser wedi hynny yn Ysbyty Glangwili.

**Eirlys Davies,** Radur – wedi colli ei brawd yng nghyfraith, Jack Davies,( brawd i'w diweddar briod 'TJ'), o Lanfihangel y Creuddyn.

# Newyddion am gronfa BanglaCymru

(e-bost oddi wrth Wil Morus Jones)

Dyma fi yn y slyms yn Nhaka ar ddiwedd y cyfnod llawdriniaethau. Mae popeth wedi mynd yn ardderchog ac enw Cymru wedi mynd ar led yma.
Bum yn gyntaf mewn ardal anghysbell ar brofiad bythgofiadwy, sef yr hyn maent yn ei alw'n 'Cleft Camp' yn teithio dros nos ar long gyda'r tîm meddygol ac yn dechrau ar y gwaith yn gynnar yn y bore. Banc tramor oedd wedi ariannu'r fenter hon. Trefnwyd bod 60 o gleifion gwefus/taflod hollt yn cael eu trin, ond erbyn diwedd y tridiau fe gyrhaeddodd 152 !! Athroniaeth y prif lawfeddyg yw nad oes unrhyw glaf byth yn cael ei wrthod felly fe ofynnwyd i mi os byddai BanglaCymru yn fodlon noddi ychydig mwy na 24 llawdriniaeth ar ôl dychwelyd i Dhaka, felly dyna gytuno ar 30! Ddoe fe orffennwyd llawdriniaeth y degfed a'r hugain. Roedd yn brofiad o foddhad mawr i mi, ac yn emosiynol iawn hefyd.
Rydym fel criw o Gymry wedi newid bywydau 30 o

(i'r golofn nesaf)

blant a ieuenctid tlota'r byd!! Mae'r gwahaniaeth yn anhygoel hyd yn oed ddiwrnod neu ddau ar ôl y driniaeth. Treuliais y 4 diwrnod yn y theatr llawdriniaeth ac ar y wardiau yn gwneud ffŵl ohonof fy hun gyda'r plant heb air o Fangla gen i yn trio'u difyrru.
Mae rhai o'r storiâu sy gen i yn ddigon i dynnu deigryn o'r cletaf ohonom. Does gan neb syniad o'r dioddefaint sydd yma. Mae'r cydlynydd meddygol yma, Dr Jishu (Dr Iesu!!!) am ddod i Gymru ym mis Mai/ Mehefin ac am ddod yn bersonol i Fethlehem i ddiolch i chi am eich cefnogaeth.
Un siom fawr a gefais oedd bod gostyngiad y bunt wedi golygu ein bod wedi colli chweched o werth yr arian a ddes gyda fi yma, ond dwi'n siŵr y daw dydd pan ddaw'r bunt yn gryfach eto ac y gallwn wneud iawn am hyn. Gobeithio y gallaf anfon llun neu ddau atoch o ganlyniadau menter BanglaCymru.
Diolch o galon i chi draw yna ym Methlehem.
Cofion cynnes,

Wil



### *Croeso i Fethlehem!*

*(isod) Y gweinidog yn derbyn Haf Tilsley, Radur a Mary Slade, Yr Eglwys Newydd, yn aelodau ar Hydref 12. Yna (ar y chwith) Lowri Griffiths, Pentyrch, ddaeth yn aelod ar Dachwedd 9fed.*



Cyfarchion Nadolig
y
Gweinidog



Yn Dduw, yn ddyn,
A'r Duw yn ddyn,
Yn un doniau.
Cawr mawr bychan,
Cryf, cadarn, gwan …
Bendigedig yw'r Nadolig
(Madog ap Gwallter)

Ac oddi wrthym ninnau fel teulu – Nadolig llawen un ac oll – a diolch am eich croeso i Fethlehem. Eleni eto fe ddaw'r bugeiliaid a'r angylion a'r doethion i Fethlehem. Daw, fe ddaw Iesu i'n byd ac i'n bywyd.

Alun



## Dechrau'r Gwaith Adeiladu

Yng nghanol mis Ionawr byddwn yn dechrau ar gyfnod o bedair wythnos ar ddeg o waith ar adeilad y capel. Bydd y to yn cael ei adnewyddu'n llwyr mewn llechi Cymraeg. Bydd gwaith adnewyddu yn cael ei wneud i'r landeri a'r gwaith coed sy'n eu cynnal yn ôl yr angen. Gwneir trefniant newydd i symud y dŵr glaw o do'r festri er mwyn datrys y lleithder ar y wal y tu ôl i'r organ. Bydd un ffenestr newydd yn cael ei gosod yn y festri a bydd y ffenestri a'r gwaith coed allanol yn cael eu paentio. Bydd gwella'r golau ar y llwybr i'r festri yn rhan o'r gwaith, ac un elfen bellach na fydd llawer ohonom yn ymwybodol ohoni fydd gwella'r goleuo a'r mynediad i'r atig. Mae'n rhaid mynd i'r fan yma'n achlysurol er mwyn newid y goleuadau.

**Can mil o wariant**

Mae cost y gwaith oddeutu £100,000 ac rydym yn medru bwrw ymlaen am inni lwyddo i ddenu nawdd i'r prosiect gan Cadw a'r Loteri Genedlaethol. Mae ein dyled yn fawr i Alwyn a Rhys am eu gwaith trylwyr a diflino yn paratoi a chyflwyno'r cynlluniau ar gyfer y fenter hon. Trwy gyflawni'r gwaith byddwn yn sicrhau diddosrwydd yr adeilad i'r dyfodol yn hytrach na wynebu problemau cynyddol wrth i'r to presennol ddirywio ar ddiwedd ei oes. Bydd angen i Fethlehem gyfrannu tua £16,000 at gostau'r prosiect. Rydym wedi paratoi ar gyfer hyn drwy glustnodi'r llog ar gyfrif buddsoddiad y capel am 2007-08 a 2008-09 at y pwrpas. Gedy hyn rhyw £10,000 yn weddill a byddwn mewn modd i'w dalu o'r cyfrif cyfredol.

Felly peidiwch â synnu wrth weld Bethlehem yn gwisgo sgaffaldiau unwaith eto – nid Dai Sgaffalde fydd wedi eu gosod, a byddant yno am dri mis. Byddwn yn dal i ddefnyddio'r capel a'r festri yn ystod y penwythnosau, ond bydd yr adeiladwyr yn storio deunyddiau ac offer yn y festri yn ystod yr wythnos.

**Peredur Evans (Trysorydd)**

***Cyfeiriad ein gweinidog :***
*Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,*
Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2BW
Ffôn: 02920 520 854
e-bost: ralun.evans@virgin.net

**Ysgrifennydd Bethlehem:**
Rhys Dafis
**Rhif Ffôn:**029 20 89 13 60



*Er ein bod wedi cael cyfle eisoes i longyfarch ein tri diacon newydd yn y rhifyn diwethaf, doedden nhw ddim wedi eu croesawu'n ffurfiol i'w swyddi newydd hyd yr oedfa uchod ganol mis Gorffennaf. Dyma nhw (o'r chwith) – Eirlys Davies, Radur, Marged Cartwright, Llandaf a'r Dr Ian Hughes, Pentre-poeth.*

## *Anfonwn ein cofion at y canlynol:*

**Mrs Gladys Lloyd,** oedd wrth ei bodd efo'r cyfarchion pen-blwydd yn 90 ar Dachwedd 9. Yn wyrthiol 90 enw oedd ar y garden oddi wrth yr aelodau a'r plant oedd yn yr oedfa ar y bore hwnnw.

**Mrs Nancy Evans,** sydd gyda'i merch, Marian Jones, Creigiau. Hithau'n 94 ac yn fregus ei hiechyd.

**Mr. Dewi Bonner**, yntau yn ei nawdegau. Byddwn yn ei gwmni fore Sul, Rhagfyr 7 yn Nhŷ Eirin, Tonyrefail.

**Alun (Sbardun) Huws** sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar.

## Prysurdeb!

Bu'r flwyddyn yn un brysur i sawl un ym Methlehem. Dyw hi ddim yn rhy hwyr i ni longyfarch **Geraint Passmore, Ifan** ac **Anna Glyn**, a **Ieuan Wyn** ar ennill eu graddau.

A pheidiwch anghofio'r awduron yn ein mysg! Gwelwyd cyhoeddi cyfrolau gan o leiaf dri o'n plith – **Emyr Edwards** wedi cyhoeddi cyfrol o farddoniaeth "Cerddi'r Theatr"; mae nofel Saesneg gyntaf **Catrin Dafydd**, 'Random Deaths and Custard', wedi cyrraedd rhestr hir 'Spread the Word: Books to Talk About 2009' ym Mhrydain a chyhoeddodd ein gweinidog **R. Alun Evans** gyfrol arall – y tro hwn am Wobr Goffa Llwyd o'r Bryn.

[Hwyrach bod rhagor – rhowch wybod i ni!]

***Wrth longyfarch un o'n haelodau, Wynford Ellis Owen, ar ei benodi'n Brif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, cyhoeddwn y llythyr y mae newydd ei anfon at bob eglwys yng Nghymru:***

F'annwyl Gyfeillion,
Mae camddefnyddio alcohol a chyffuriau'n broblem gyfoes ac mae'r problemau cymdeithasol a achosir yn effeithio ar gymdeithas yn gyffredinol. Amcangyfrifir fod mwy na chwarter plant Cymru wedi meddwi o leiaf ddwywaith erbyn eu bod yn 13 oed; a bod pobl ifanc rhwng 11a 15 mlwydd oed yn defnyddio mwy o alcohol na phobl ifanc o'r un oedran mewn unrhyw wlad arall yn Ewrop. Yn ogystal, amcangyfrifir fod 17,500 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu heffeithio oherwydd i'w rhieni gamddefnyddio cyffuriau; a bod 64,000 o blant yn cael eu heffeithio gan broblemau alcohol eu rhieni. Mae 1,100 o bobl yn marw yng Nghymru bob blwyddyn o ganlyniad i broblemau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol.
Crëwyd Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill fel Elusen Gofrestredig ym 1968 fel olynydd i'r mudiadau dirwest, a gweinyddir y Cyngor gan gynrychiolwyr yr Eglwysi, fel Ymddiriedolwyr. Mae'r Cyngor yn hynod ddiolchgar i'r Enwadau, yr Eglwysi a'r unigolion sydd wedi parhau yn ffyddlon i gefnogi'r Cyngor drwy eu rhoddion ariannol dros y blynyddoedd. Ar ôl nifer o bryderon ynglŷn â dyfodol y Cyngor, mae'r Cyngor yn awr wedi penderfynu ar strategaeth dair blynedd fydd yn canolbwyntio ar hybu 'Dewis a Byw Bywyd Cyfrifol'.
Gweler yr Atodiad am fwy o fanylion am y strategaeth.(copi o'r Atodiad ym mynedfa'r capel – Gol). Gwelwch fod nifer o fentrau cyffrous yn cael eu gweithredu i geisio delio â'r broblem gynyddol o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau eraill (ar bresgripsiwn neu'n anghyfreithlon) yn ein cymunedau Cymraeg heddiw.
Bwriad y llythyr hwn yw apelio'n uniongyrchol at Enwadau, Eglwysi ac unigolion i gefnogi gwaith y Cyngor drwy gyfraniadau ariannol. Gall hynny sicrhau fod y strategaeth yn cael ei gwireddu yn ei chyfanrwydd; gall eich cydweithrediad ymarferol fod yr un mor amhrisiadwy i'w gwireddiad hirdymor. Carwn ichi nodi, hefyd, mai gweithredu yn enw'r eglwysi a wna'r Cyngor, a bod angen i'r cymunedau Cristnogol dderbyn eu cyfrifoldeb i fod yn rhan o'r frwydr.
Rhan annatod o'r Strategaeth yw penodiad Prif Weithredwr y Cyngor, ac rwyf newydd gael fy mhenodi i'r swydd. Fel un fu'n gaeth i alcohol a chyffuriau eraill fy hun, llwyddais, drwy ras Duw, i ailadeiladu fy mherthynas â'm teulu, ac i adfer fy ngyrfa fel awdur, actor a chyfarwyddwr. Dair blynedd yn ôl, dychwelais i'r coleg ac ennill gradd o brifysgol Caerfaddon sy'n fy nghymhwyso i gynghori rhai sy'n ddibynnol ar alcohol a chyffuriau eraill. Cyn fy mhenodiad i'r Cyngor roeddwn yn gweithio fel cynghorwr yn Rhoserchan, y ganolfan driniaeth yng Ngheredigion.



Os yw'r strategaeth newydd yn eich cyffroi chi fel mae wedi cyffroi pawb ar y Cyngor, erfyniaf arnoch i'n helpu i'w gwireddu mewn unrhyw ffordd bosibl. Os ydych fel unigolion yn barod i'n cefnogi'n ariannol hefyd, yna gallaf eich sicrhau fod arian ag ysbrydolrwydd yn cydweddu pan y'u cyfunir at wasanaeth yr Hollalluog.
Gaf i eich atgoffa, yn ogystal, fy mod yn eiddgar i ddod i siarad ag eglwysi, ysgolion a grwpiau ieuenctid led led Cymru i hyrwyddo gwaith y Cyngor. Gallwch drefnu ymweliad gen i drwy gysylltu â'r cyfeiriad isod neu drwy ffonio'r Cyngor. Gall unigolion sy'n dymuno cyfrannu'n ariannol at waith y Cyngor ddefnyddio'r un manylion cyswllt.
Diolch yn fawr am eich amser wrth ddarllen y llythyr hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â chi i wireddu'r strategaeth.
Gyda'm dymuniadau gorau,

WYNFORD ELLIS OWEN.
Prif Weithredwr
58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT
e-bost: wynford@cyngorcymru.org.uk
Ffôn: 029 2049 3895

***Cwrdd y Merched***

## Tai Chi yn festri Bethlehem.

***[Os na chawsoch chi gyfle i glywed June Huws trafod yr uchod yn ei sgwrs fis Hydref, dyma erthygl ganddi am Tai Chi]***

Mae gwreiddiau Tai Chi yn mynd yn ôl filoedd o flynyddoedd yn Tsieina ac mae ganddo gysylltiad gyda'r grefydd Tao. Mae T C yn boblogaidd iawn yn Tsieina fel ffordd o gadw'n heini ac o greu harmoni mewnol. Mae T C yn cynnwys ymarferion i'r cyhyrau a'r cymalau ac mae wedi cael ei ddylanwadu gan fyd natur a symudiadau anifeiliaid.
Prif bwyntiau T C ydy pwysigrwydd ymlacio er mwyn ymestyn y cyhyrau; defnydd cywir o'r anadl; llyfnder symudiadau; arafwch; dim gwastraff egni; canolbwyntio; sefyll yn gywir; ysgwyddau ymlaciedig. Mae rhai ysgolion o T C yn canolbwyntio ar yr elfen o hunan amddiffyn ac maent yn medru bod yn ffyrnig ac yn gorfforol iawn. Mae T C y teulu Li ar y llaw arall yn fath eithaf tyner ac esthetig er bod y symudiadau yn berthnasol i hunan amddiffyn. Efallai mai'r peth mwyaf trawiadol am T C, fel y gwyr gwylwyr ffilmiau fel Calendar Girls yw y 'Form', sef cyfres llyfn o symudiadau gosgeiddig sy'n ymdebygu i ddawns. Mae angen disgyblaeth ac ymarfer i'w berffeithio ac mae hyd yn oed arbenigwyr yn dweud mai'r daith tuag at ei berffeithio sy'n bwysig.
Mae'r elfen o fyfyrdod yn bwysig hefyd ac mae yna lawer o ymarferion i helpu llonyddu'r corff a'r ymennydd ac mae tylino yn cael lle eithaf blaenllaw hefyd fel ffordd o ymlacio ac er mwyn esmwytho cyhyrau blinedig. Rhoddodd y wers T C gafodd chwiorydd Bethlehem flas bach iddynt o'r hyn sydd i gael. Buaswn yn eu hannog i fynychu gwersi T C sy'n cael eu cynnig gan ein cynghorau lleol er mwyn iddynt elwa o'r hyn sydd gan yr hen hen ddisgyblaeth hon i'w gynnig.

**Calendr y Cwrdd Merched**

**Mis Hydref:** Bu June Huws yn sôn am Tai Chi

**Mis Tachwedd:** Bu Ifan a Margaret Roberts yn sôn am eu hymweliad ag Awstralia.

Allan i ginio i'r Caesar's Arms

**Mis Rhagfyr:** Brethyn Cartref

Allan i ginio i'r 'Gwaelod–y–Garth Inn'

**Mis Ionawr:** Sgwrs gan Dilwyn Jones

*Diolch i Ieuan, Sioned a Huw am wirfoddoli i drefnu rhaglen ar gyfer CAIB at y gaeaf a'r gwanwyn (ac am y poster recriwtio!). Maen nhw'n apelio ar i eraill ddod i helpu efo'r chwaraeon*

